**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1000 a P-05-1080
Ein cyf/Our ref JMEWL/00710/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

25 Ebrill 2022

Annwyl Jack,

**Deiseb P-05-1000 Ei gwneud yn orfodol i hanesion pobl dduon a POC y DU gael eu haddysgu yng nghwricwlwm addysg Cymru**

**Deiseb P-05-1080 Cyflwyno deunyddiau dysgu gwrth-hiliaeth i blant mewn ysgolion yng Nghymru i leihau troseddau casineb**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Mawrth ynghylch ystyriaeth y Pwyllgor o'r deisebau ac yn gofyn am ddiweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru bob argymhelliad yn adroddiad yr Athro Charlotte Williams OBE ym mis Mawrth 2021. I adlewyrchu'r pwysigrwydd a roddwn ar fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad yn ein Rhaglen Lywodraethu.

Rwy'n falch bod Cymru yn arwain y ffordd drwy ddod y rhan gyntaf o'r DU i'w gwneud yn orfodol i addysgu hanes a phrofiadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y cwricwlwm. Bydd hyn yn sicrhau bod ein pobl ifanc yn meithrin dealltwriaeth o'u hunaniaeth nhw eu hunain a phobl eraill ac yn gwneud cysylltiadau â phobl, llefydd a hanesion mewn rhannau eraill o Gymru a ledled y byd. Bydd yn atgyfnerthu pwysigrwydd addysgu profiadau a chyfraniadau ddoe a heddiw pobl o leiafrifoedd ethnig fel rhan o stori Cymru ar draws y cwricwlwm.

Yn ystod hydref 2021, cafodd y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y Dyniaethau yn y Cwricwlwm i Gymru eu cryfhau yn dilyn ymgynghoriad. Y nod oedd sicrhau bod astudio hanes Cymru yn ei holl amrywiaeth a'i holl gymhlethdod yn glir ac yn orfodol i ysgolion a lleoliadau. Maent bellach yn nodi:

"Drwy glywed straeon eu hardal leol a straeon Cymru yn gyson, yn ogystal â straeon y byd ehangach, gall dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o natur gymhleth, lluosieithog ac amrywiol cymunedau ddoe a heddiw. Mae'r straeon hyn yn amrywiol, yn cwmpasu gwahanol gymunedau, yn ogystal â straeon pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn enwedig. Mae

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hyn hefyd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o hanes, treftadaeth ddiwylliannol, amrywiaeth ethnig, hunaniaethau, profiadau a safbwyntiau eu hardal leol, Cymru a'r byd yn ehangach.”

Ddechrau’r haf, byddaf yn cyhoeddi diweddariad ar ein cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Byddwn yn fodlon ysgrifennu at y Pwyllgor pan fydd hwnnw wedi’i gyhoeddi er mwyn gallu rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r deisebwyr.

Ymysg y prif lwyddiannau hyd yma mae cyhoeddi categori newydd yng Ngwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru, sef “Gwobr Betty Campbell MBE am hyrwyddo cyfraniadau a safbwyntiau cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig”. Mae’r wobr newydd hon yn dathlu cynhwysiant ac yn cydnabod ymwybyddiaeth ardderchog o bwysigrwydd addysg gynhwysol fel rhan o gymdeithas sy’n wynebu ac yn mynd i’r afael â phob ffurf ar hiliaeth. Cyhoeddir yr enillydd ar 10 Gorffennaf.

Ym mis Hydref 2021, cyhoeddwyd ein cynllun i recriwtio mwy o bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig i raglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon. Y cynllun hwn fydd y cam cyntaf mewn strategaeth ehangach i recriwtio a chadw mwy o bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig i'r gweithlu Addysg. Yn ddiweddarach eleni, byddwn hefyd yn cyflwyno, am y tro cyntaf, gymhellion ariannol i helpu i recriwtio mwy o athrawon o leiafrifoedd ethnig.

Drwy ddefnyddio dulliau gweithredu cwricwlwm ehangach megis sgyrsiau'r Rhwydwaith Cenedlaethol, rydym hefyd yn sicrhau bod trafodaethau yn y maes gwaith pwysig hwn yn parhau a bod allbynnau'r adroddiad wedi'u hymgorffori mewn ysgolion. Mae'r sgwrs bresennol yn canolbwyntio ar gefnogi athrawon i addysgu hanesion Cymru a hanesion pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Y nod yw cael astudiaethau achos cadarnhaol, nodi rhwystrau a meithrin dealltwriaeth o ba gymorth pellach y gallai fod ei angen ar athrawon.

Mae'r Athro Williams yn parhau i chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gefnogi Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r argymhellion. Mae'r Athro Williams hefyd wedi bod yn cynorthwyo Cymwysterau Cymru yn eu grŵp cynghori academaidd "Cymwys ar gyfer y Dyfodol", gan nodi'r angen i feddwl am amrywiaeth ac amlddiwylliant ar draws pob pwnc. Mae’r gwaith yn parhau yn y maes hwn i ddatblygu'r fframwaith a'r canllawiau sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cymwysterau sy'n adlewyrchu'n llawn ymagwedd ddiamau tuag at safbwyntiau pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

Wrth symud ymlaen, mae cynnydd da wedi'i wneud o ran dysgu proffesiynol, mentora ac adnoddau, drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaethau. Fy mlaenoriaeth yn awr yw parhau i wneud cynnydd pellach yn y meysydd hyn eleni.

Rwy'n gobeithio y bydd y diweddariad hwn yn rhoi sicrwydd ichi fod yr elfen bwysig hon o'r gwaith yn parhau i fynd rhagddi yn gyflym.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language